**COFNODION O GTFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 19 O DACHWEDD 2024 DRWY ZOOM**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Alan Pritchard, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Philip Roberts, Hefin Jones, Beca brown, Berwyn Parry Jones.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Richard Robinson

**1378. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a cychwynnodd drwy fynegi cydymdeimlad a'r Cynghorydd Richard Robinson ar ei brofedigaeth

**1379 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fela nodwyd uchod

**1380. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1381. I dderbyn cofnodion cyfarfod 15 Hydref 2024**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y cadeirydd

**1382. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.**

Dim

**1383. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1384. I ystyried cais gan Bartneriaeth Dyffryn Peris (manylion wedi gylchredeg).**

Adroddwyd fod Partneriaeth Dyffryn Peris wedi sefydlu ac fod cais am £3,000 o arian gan y cyngor. Nodwyd fod cais wedi wneud at gynghorau cymuned oddi fewn i'r ardal a byddai yn ofynnol i ychwanegu'r swm yma at y praesept ar gyfer 2025 / 2026.

**Penderfynwyd:** Cytuno i gyfrannu £3,000 i Bartneriaeth Dyffryn Peris mewn egwyddor gyda'r clerc i sicrhau fod y gwariant yn bodloni deddfwriaeth ble gellir cytuno i'r cyfraniad.

**1385. Yn dilyn penderfyniad y cyngor yn ei gyfarfod 15 Hydref 2024, i gyflwyno sylwadau ar y 'cyfnod galw' ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (bwriad o gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned ar ôl cyfarfod mis Tachwedd)**

**Penderfynnwyd:** Yr aelodau i adnabod cyfleodd perthnasol ac i adrodd yn ôl yn unigol ar y cynllun

**1386. I ystyried cais Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

Adroddwyd fod cais wedi dderbyn gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy i gefnogi'r canlynol

*"Cymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn credu bod dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn gam allweddol tuag at gyfnerthu cymunedau Cymraeg. Geilw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn unol ag argymhelliad y Comisiwn."*

**Penderfynnwyd:** Cefnogi cais Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**1387. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan Y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 12fed o Dachwedd 2024. Ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd

a) Fod y contractwr yn parhau i wneud gwaith yn y caeau chware
b) Fod y ffens yn barod ar gyfer cael Pwll Moelyn
c) Bydd y contractwr yn dechrau ar y parc sglefrio
d) Holiadur offer chwarae yn barod i fynd i'r ysgol gynradd
e) Mapiau digidol – rhoi hwn ar ddal tan y flwyddyn nesaf
f) Wedi cyfarfod a unigolyn ar barc sglefrio Cwm y Glo. Mae cais wedi dderbyn i ofyn caniatâd i osod goed ffrwythau o gwmpas ar gyfer budd a lles y gymuned
g) Trefniadau Nadolig ar y gweill
h) Beirniadu y gystadleuaeth ar 15 a 16 o Rhagfyr 2024
i) Hyfforddiant at gyfer y diffibs mis Ionawr 2025 – bydd yn rhaid iddo fod ar Ddydd Mawrth / Iau
j) Cysgodfa bws ar gyfer Glyntwrog – disgwyl ymateb gan y contractwr

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1388. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 7fed o Dachwedd 2024 ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd

Yn dilyn oediad byr er mwyn sicrhau cywirdeb ynglŷn ag eiddo tir gyferbyn a'r fynwent penderfynwyd yr is-bwyllgor y fynwent ,mewn cyfarfod ar Dachwedd 7 fed, i symud ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu waliau o gwmpas tir ar gyfer estyniad i'r fynwent. Bydd y gwaith yn cael ei chwblhau gyda chydweithio gyda'r tirfeddiannwr.

Yn yr un cyfarfod penderfynwyd cwblhau gwaith iechyd a diogelwch i uwchraddio'r ugain diwethaf o gofebion oedd wedi ei adnabod fel rhai oedd angen y sylw mwyaf yn dilyn yr asesiad risg diweddaraf. Bydd hefyd gwaith yn cael ei gwneud ar y stêcs ar feddi eraill.

Ar ôl derbyn cyngor gan y contractwr penderfynwyd cael un toriad gwair arall yn y fynwent blwyddyn yma.

Mae'r is-bwyllgor wedi cytuno i gais am gymorth i ddelio gyda thir oedd wedi suddo o flaen bedd. Bydd digwyddiadau eithriadol fel hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad nesaf o reolau'r fynwent.

Penderfynwyd ar destunau'r arwyddion oedd i'w archebu yn fuan : parcio, cau giatiau, rhybudd ar fynediad i'r cwt.

Bydd cyfarfod o'r is-bwyllgor i drafod blaenoriaethau ar gyfer y fynwent am 25/26 yn cael ei chynnal ar Ionawr 2 am 6.30 y.h. (ar lein).

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1389. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C24/0688/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Mynedfa gerbydol newydd i drac presennol.
**Ymgeisydd:** Mr & Mrs Griffiths
**Asiant:** Alan Owen (A.L.I Building Design Ltd)
**Cyfeiriad:** Tŷ Isaf, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** -466987.513557947, 7006980.64884058
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C24/0910/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel modurdy presennol. Adeiladu estyniad deu lawr ochr i'r eiddo.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Aneurin and Carys Williams
**Asiant:** Mr H Gareth Jones (BDS Gwynedd)
**Cyfeiriad:** Hafod Owen, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** -466849.494581404, 7007671.13763641
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C24/0906/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Newid defnydd tir i ddarparu 17 o leiniau carafanau teithiol/gwersylla ychwanegol fel rhan o faes carafanau a gwersylla presennol.
**Ymgeisydd:** Heledd and Nathan Tandy
**Asiant:** Mr Gwyn Humpherys (Roger Parry & Partners LLP)
**Cyfeiriad:** Llys Derwen Camping & Caravan Site, Caravan Park, Llys Derwen Ffordd Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RD
**Cyfeirnod Grid:** -465964.667272224, 7009545.19483836
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif y Cais:** C24/0927/23/RA
**Math o Gais:** Caniatâd ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod
**Bwriad:** Mae'r ymgeisydd yn dymuno ymuno mewn Cytundeb Adran 106 er rhyddhau amod 2 ar ganiatâd rhif C24/0232/23/LL
**Ymgeisydd:** Mr Martin Williams
**Asiant:** Mr Berwyn Owen (Berllan Properties Ltd )
**Cyfeiriad:** Tŷ Isaf, Bryniau Fawnog Ffordd Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PU
**Cyfeirnod Grid:** -466752.159102359, 7009907.6454864
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif y Cais:** C24/0622/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer.
**Ymgeisydd:** Helen Peart
**Asiant:** Mr Matthew Edwards (Menai Heating Ltd)
**Cyfeiriad:** 2, Bryn Hyfryd, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DU
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

f) **Rhif y Cais:** C24/0881/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Gosod blwch storio gerllaw blwch storio arall ar gyfer defnydd yr ysgol.
**Ymgeisydd:** Richard Green
**Cyfeiriad:** Cyngor Gwynedd, Ysgol Brynrefail Ffordd Crawia, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AD
**Cyfeirnod Grid:** -466573.966350261, 7010909.89741639
**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 19:50

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: